De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol

2022-2023

Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith yn Nhîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Cyflwyniad

Cyflwynwyd 'Safonau'r Gymraeg' yn 2017 yng Nghymru ac ers i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad Cydymffurfio â'r Gymraeg i ni. Amlinellir y Safonau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw yn hysbysiad cydymffurfiaeth gyfreithiol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y gellir ei weld ar ein gwefan.

Ers i'r Safonau gael eu cyflwyno, rydym wedi ymroi'n llwyr i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn ein tîm ac i'r cyhoedd. Rydym wedi croesawu'r Safonau fel ffordd o sicrhau y gallwn gynnig y gwasanaeth Cymraeg gorau posibl, ac un sy'n gyfartal â'r un a ddarparwn yn Saesneg.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â'r Safonau a hyrwyddo cynhwysiant y Gymraeg yn ystod blwyddyn ariannol 2022-2023.

Goruchwylio Mewnol

Rydym yn parhau i weithredu Gweithgor Cymraeg, a gadeirir gan yr Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb. Mae'r Grŵp hwn yn gyfrifol am y gwaith parhaus o fonitro a goruchwylio ein cydymffurfiaeth a'n cynnydd o ran cynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae aelodau o'r grŵp yn gweithredu fel 'Hyrwyddwyr' y Gymraeg ac o fewn eu meysydd portffolio, ac yn chwarae rhan yn codi ymwybyddiaeth o'r Safonau ar draws y tîm. Mae'r grŵp yn cyfrannu at y cyfarfodydd tîm llawn yn nhîm y Comisiynydd er mwyn sicrhau y caiff materion y Gymraeg eu cynnwys yn ein strwythurau llywodraethu.

Cyn belled ag y bo modd, rydym yn cydweithio â Heddlu De Cymru wrth hyrwyddo cynhwysiant iaith.

Ymgorffori'r Safonau yn 2022/23

Yn ystod y flwyddyn hon, bu ymdrech frwd gan y Grŵp Cymraeg i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol yn swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Rydym wedi cyflwyno "Gair yr Wythnos" lle y cyflwynir gair neu ymadrodd newydd ar sgrin ein teledu yn y swyddfa er mwyn annog y staff i ddysgu. Rydym hefyd wedi gosod swigod siarad ar eitemau yn y swyddfa sy'n eu henwi yn Gymraeg.

Mae aelodau staff newydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i gael sesiynau ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a sut y mae angen eu rhoi ar waith. Mae pob aelod o'r staff hefyd yn cael canllawiau cynhwysfawr a ddatblygwyd gan y gweithgor i'w helpu i ymgymryd â'u cyfrifoldebau unigol o ran y Gymraeg. Mae'r staff yn gwybod yn glir bod y ddogfen yn hollbwysig ac y dylai pawb fod yn gyfarwydd â hi.

Mae amrywiaeth o wybodaeth a deunyddiau yn y Gymraeg ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn cynnig gwasanaeth cyson i'r cyhoedd. Ers i'r Safonau gael eu rhoi ar waith, cymerwyd camau ymarferol i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cadarnhaol. Mae enghreifftiau wedi cynnwys staff yn cael mynediad i sesiwn 'Siop Siarad' sy'n cael ei hwyluso gan hyfforddwr Cymraeg Heddlu De Cymru ac sy'n galluogi staff i ymarfer a gwella eu sgiliau Cymraeg. Yn ystod 2022-2023 cyflwynwyd sesiynau "Siop Siarad" i staff swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn unig, a chafwyd ymateb cadarnhaol i'r sesiynau hyn.

Mae Hyfforddwr Cymraeg Heddlu De Cymru wedi cyflwyno cwrs pontio i helpu cynnydd y staff o lefel 2 i lefel 3 ac mae aelodau o swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cofrestru ar y cwrs hwn.

Mae'r holl siaradwyr Cymraeg rhugl wedi cael llinynnau gwaith a bathodynnau er mwyn nodi eu bod yn medru'r iaith. Eleni rydym wedi rhoi laniardiau i enwi'r rhai sy'n dysgu. Caiff Tîm y Comisiynydd ei atgoffa'n aml hefyd o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt uwchsgilio yn y Gymraeg a gwella eu hyder yn y Gymraeg. Cefnogir pob aelod o'r holl staff i wella eu sgiliau Cymraeg.

Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal hunanasesiad ar gyfer Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Edrychodd hyn ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. O ganlyniad i'r hunanasesiad hwn, ystyrir ein bod yn sefydliad risg isel gyaag ond ychydig o fân argymhellion. Rhoddwyd sylw i'r holl argymhellion.

Mae'r gweithgor mewnol yn parhau i fonitro gweithrediad y Safonau fel mater o drefn.

Safonau Darparu Gwasanaethau

Rydym yn gweithio i gyrraedd ein safonau 'Darparu Gwasanaethau' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Fformat 'cysylltwch â ni' safonol ar ein dogfennau i amlinellu ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Darparu troednodiadau ar waelod negeseuon e-bost a phapur pennawd i esbonio ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Siaradwyr Cymraeg yn dangos eu gallu i siarad Cymraeg ar droedyn e-bost.
- Llofnodion e-bost, negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa' a negeseuon llais i brif rifau llinell dir yn ddwyieithog.
- Caiff pob un sy'n ffonio prif linell tîm y Comisiynydd ei gyfarch yn ddwyieithog. Wedyn, rhoddir cymorth yn y Gymraeg hyd nes y daw hyn bellach yn amhosibl am nad oes digon o siaradwyr Cymraeg ar gael neu am fod angen siarad ag arbenigwr ar y pwnc nad yw'n siarad Cymraeg. Caiff pob galwr Cymraeg ei drin gyda chwrteisi a pharch a gwnawn bopeth o fewn ein gallu i ddarparu gwasanaeth cadarnhaol.
- Pan fyddwn yn cysylltu â phobl am y tro cyntaf ac nad ydym yn ymwybodol o'u dewis iaith, gofynnwn iddynt a hoffent gyfathrebu â ni yn Gymraeg. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y person hwnnw eisoes wedi cysylltu yn Saesneg neu oni bai bod ei ddewis iaith eisoes yn hysbys.
- System i gofnodi manylion y rhai sy'n rhoi gwybod i ni eu bod am gyfathrebu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae pob cyfarfod cyhoeddus, digwyddiad a chynhadledd, gan gynnwys y rhai sydd ar-lein, yn cynnig y cyfle i sgwrsio yn Gymraeg. Mae'n ofynnol i unigolion roi gwybod i ni am eu dymuniad i gyfathrebu yn Gymraeg erbyn dyddiad penodedig er mwyn i ni allu trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn briodol.
- Mae'r dogfennau defnydd safonol a ddefnyddir yn y tîm yn ddwyieithog.
- Mae trydariadau cyfrif Twitter y Comisiynydd yn ddwyieithog.
- Mae ein polisi ar gyfer dyfarnu grantiau pwyso a mesur yr angen i ystyried a hyrwyddo'r Gymraeg yn y broses ddyfarnu.

Pethau o bwys yn ystod 2022/23:

- Mae'r Comisiynydd wedi rhoi sawl cyfweliad yn y cyfryngau drwy gyfrwng y Gymraeg dros y flwyddyn ariannol hon.
- Lluniodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl lythyr ar y cyd at bob awdurdodau lleol, Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd yn Ne Cymru, yn cyflwyno diweddariad blynyddol â cherdyn Nadolig.
- Dathlodd Swyddfa'r Comisiynydd Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg ar 7 Rhagfyr gan bostio ar y cyfryngau cymdeithasol.

Nid ydym wedi cael unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Safonau Darparu Gwasanaeth yn y cyfnod adrodd hwn.

Safonau Llunio Polisi

Rydym yn gweithio i gyrraedd ein safonau 'Llunio Polisi' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Pan fydd polisïau neu brosiectau'n cael eu sefydlu neu eu hadolygu a'u bod yn destun proses 'Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb', mae hyn yn cynnwys asesiad o oblygiadau'r Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Trefnir sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff newydd er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio'r broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb/y Gymraeg yn effeithiol.
- Mae ymgynghori neu ymchwil yn achub ar gyfleoedd i wahodd safbwyntiau ar sut y gallem hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn wedi digwydd yn fewnol ers cyflwyno'r Safonau, gyda'r staff yn mynegi barn ar sut y gallwn hyrwyddo'r iaith.

Pethau o bwys yn ystod 2022/23:

- Gwnaethom barhau i adnewyddu ein dull o asesu polisïau ar gyfer effaith yn 2022-2023, ac mae hyn wedi cynnwys ystyried sut y gallwn asesu'n well y goblygiadau i'r Gymraeg o fewn y tîm. Mae'r broses asesu effaith wedi cael ei hadolygu eto eleni i sicrhau bod yr arferion gorau ar waith.
- Nid ydym wedi cael unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Safonau Llunio Polisi yn y cyfnod adrodd hwn.

Safonau Gweithredol

Rydym yn gweithio i gyflawni ein safonau 'Gweithredol' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Mae aelodau o'r staff wedi cael cynnig cyfle i gael dogfennau adnoddau dynol yn Gymraeg neu i gynnal prosesau adnoddau dynol yn Gymraeg. Hyd yma, nid oes yr un aelod o'r staff wedi gofyn am y cyfleuster hwn.
- Mae cyfleusterau gwirio sillafu Cymraeg mewnol ar gael at ddefnydd siaradwyr Cymraeg.
- Pan fyddwn yn mynd ati i hysbysebu unrhyw swydd, rydym yn mynd drwy broses i asesu'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gyfer y swydd. Pan fyddwn yn mynd ati i hysbysebu unrhyw swydd, rydym yn mynd drwy broses i asesu'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gyfer y swydd. Mae canlyniadau'r asesiad i'w gweld drosodd.

- Cynigir prosesau recriwtio yn ddwyieithog.
- Mae pob aelod newydd o'r staff sy'n ymuno â Thîm y Comisiynydd yn cael ei friffio/briffio ar ofynion a phrosesau Safonau'r Gymraeg yn ei sesiynau sefydlu.
- Darperir sesiynau gloywi ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn.
- Mae Polisi Cymraeg yn y Gweithle'n amlinellu sut bydd y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ymhlith tîm y Comisiynydd.

Pethau o bwys yn ystod 2022/23:

- Mae ein dogfen “Sut rydym yn Cydymffurfio” wedi cael ei hadolygu o ganlyniad i adborth gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
- Gwnaethom gefnogi gofynion hyfforddiant Cymraeg ar-lein orfodol i bob aelod newydd o'r staff.
- Mae'r holl staff wedi'u hannog i gyflawni Sgiliau Cymraeg lefel 2. Maent wedi'u cefnogi i gwblhau'r cwrs angenrheidiol.
- Mae sawl aelod o staff wedi gwneud cais i fynychu cyrsiau ffurfiol i wella eu sgiliau Cymraeg.
- Gwnaethom annog presenoldeb yn sesiynau 'Siop Siarad' ar-lein i'r holl staff a oedd yn dymuno cyfarfod yn anffurfiol i ddechrau neu wella eu sgiliau siarad Cymraeg.
- Cafodd sesiynau “Siop Siarad” ar gyfer staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn unig eu cyflwyno.

Nid ydym wedi cael unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Safonau Gweithredol yn y cyfnod adrodd hwn.

Safonau Cadw Cofnodion

Rydym yn gweithio i gyflawni ein safonau 'Cadw Cofnodion' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Rydym yn cadw cofnodion o wybodaeth sy'n ymwneud â'n hysbysiad cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Er enghraifft, rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth, yn ogystal â chofnod o nifer yr aelodau o staff sy'n medru'r Gymraeg a nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd sy'n cael eu hasesu ar gyfer sgiliau Cymraeg (a chanlyniadau'r asesiadau).

Er mwyn bodloni gofynion ein Safonau Cadw Cofnodion, rydym yn darparu'r wybodaeth isod mewn perthynas â'r cyfnod adrodd hwn:

Gofyniad Cofnodi	Nifer
Nifer ein cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg	Mae 11 aelod o staff yn nodi bod ganddynt sgiliau Cymraeg (bron yn rhugl neu'n rhugl). Mae hyn yn cyfrif am 20% o'r aelodau staff.
Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag y gwnaethom eu hysbysebu yn ystod y cyfnod adrodd hwn a gafodd eu categoreiddio'n swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol	0
Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag y gwnaethom eu hysbysebu yn ystod y cyfnod adrodd hwn a gafodd eu	9

categoreiddio'n swyddi lle roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl penodi	
Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag y gwnaethom eu hysbysebu yn ystod y cyfnod adrodd hwn a gafodd eu categoreiddio'n swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol	9
Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag y gwnaethom eu hysbysebu yn ystod y cyfnod adrodd hwn a gafodd eu categoreiddio'n swyddi lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol	9
Nifer y cyflogeion a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynhaliwyd yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd	0

Cwynion

Rydym wedi sefydlu polisi ar gyfer ymdrin ag unrhyw gwynion yn ymwneud â chyrraedd Safonau'r Gymraeg a gellir dod o hyd i hyn ar ein gwefan. Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y cyfnod adrodd hwn.

Casgliad

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2022-2023, mae swyddfa'r Comisiynydd wedi parhau i hyrwyddo'r Gymraeg, yn fewnol ac i'r cyhoedd. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Hyfforddwr y Gymraeg Heddlu De Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr heddlu ac yn swyddfa'r Comisiynydd. Mae hyn wedi cynnwys cynnal digwyddiad ar y cyd yn y pencadlys ar Ddydd Gŵyl Dewi. Arweiniodd y digwyddiad hwn at nifer fawr o staff yn mynegi diddordeb mewn mynd ati i wella eu sgiliau Cymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg yn agwedd bwysig ar waith cydraddoldeb a chynhwysiant y tîm. Rydym yn gweithio'n dda i gyrraedd y safonau fel rhan o'n busnes fel arfer ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cynhwysiant iaith yn rhan o'n diwylliant. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol nad ydym bob amser yn cael pethau'n gywir ac rydym yn croesawu safbwyntiau ein cymunedau a'n staff am y ffordd y gallem wella.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

I ddysgu mwy am eich Comisiynydd

dilynwch ni drwy:

/commissionersw

www.southwalescommissioner.org.uk/cy/

Neu cysylltwch â ni drwy:

commissioner@south-wales.police.uk

01656 869 366

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg